**LGH-12-02 (min)**

# Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 10 Gorffennaf 2002 | |
| **Amser:** | 2.00pm hyd 5.20pm | |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol | |
| **Yn bresennol:** | **Aelodau** | |
| | Gwenda Thomas (Cadeirydd) | Castell-nedd |
| | Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| | Rosemary Butler | Dwyrain Casnewydd |
| | Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| | William Graham | Dwyrain De Cymru |
| | Edwina Hart (Gweinidog) (Tan 3.30) | Gŵyr |
| | Peter Law | Blaenau Gwent |
| | Dai Lloyd (o 3.20pm ymlaen) | Gorllewin De Cymru |
| | Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| | **Yn bresennol:** | |
| | Kate Cassidy | Moderneiddio Llywodraeth Leol |
| | Lisa James | Cyllid Llywodraeth Leol |
| | John Bader | Y Gyfarwyddiaeth Dai |
| | Francois Samuel | Y Gyfarwyddiaeth Dai |
| | Norma Barry | Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau |
| | Tracey Breheny | Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau |
| | Denys Morgan | Sefydliad y Peirianwyr Siril |
| | Graham Cater | Bwrdd Ymgynghorol Consignia yng Nghymru |
| | Stuart Taylor | Bwrdd Ymgynghorol Consignia yng Nghymru |
| | **Ysgrifenyddiaeth** | |
| | Roger Chaffey | Clerc |
| | Claire Griffiths | Dirprwy Glerc |

### Sylwadau Agoriadol

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod amserlen ddrafft y Pwyllgor ar gyfer tymor yr Hydref wedi dod i law a bod cyfarfodydd y Pwyllgor wedi'u trefnu ar gyfer boreau Mercher yn dechrau ar 16eg Hydref. Cadarnhaodd yr Ysgrifenyddiaeth nad oedd hynny'n gwrthdaro ag unrhyw gyfarfodydd pwyllgor eraill a oedd wedi'u trefnu ar gyfer yr amser hwnnw.

Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor mai hwn oedd cyfarfod olaf y tymor ac roedd yn rhagweld y byddai'r Pwyllgor yn parhau yn Nhymor yr Hydref â cham nesaf ei adolygiad o adfywio cymunedol, gan ystyried goblygiadau'r Mesur Llywodraeth Leol i Gymru, y gyllideb ddrafft, effaith y strategaethau Digartrefedd a Thlodi o ran Tanwydd, cynnydd pellach y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf a nifer o gynlluniau eraill o eiddo Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn cynnwys Cynnal Pobl, y Cynllun Gwarchod Bondiau a chanllawiau arferion da ar ddelio â cheiswyr lloches a ffoaduriaid. Ychwanegodd ei bod yn rhagweld y ceid cyflwyniadau gan gyrff mor amrywiol â'r Heddlu, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Archwilwyr Dosbarth. Gofynnwyd i'r Aelodau basio unrhyw awgrymiadau ychwanegol sydd ganddynt i'r Clerc i weld a ellid eu cynnwys.

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai cam nesaf yr adolygiad polisi ar adfywio cymunedol yn canolbwyntio ar feithrin gallu ac ar y prinder staff adfywio cymunedol. Yng ngoleuni etholiad Mai 2003, mae'n bur debyg mai dim ond tan ddiwedd Ionawr fyddai gan y Pwyllgor i gwblhau'r adolygiad. Byddai hynny'n golygu bod modd i'r adroddiad gael ei gyhoeddi a'i drafod mewn cyfarfod llawn cyn diwedd tymor y Cynulliad. Cytunodd yr Aelodau y dylai Cylch Gwaith drafft ynghyd ag amserlen ddrafft gael eu cylchredeg ar ôl y cyfarfod. O gael cymeradwyaeth i'r rhain byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn gallu dechrau ar yr ymgynghori ysgrifenedig yn ystod gwyliau'r haf.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau a oeddent yn hapus i barhau â gwasanaeth ymgynghorydd arbenigol. Roedd yr Aelodau'r cytuno a chytunasant hefyd y dylid cysylltu â'r Athro Dave Adamson i ymestyn ei gontract. Y ddadl dros wneud hynny oedd ei bod yn ofynnol yn ôl y Cylch Gwaith i'r Pwyllgor ddynodi materion eraill yn ymwneud ag agweddau o'r agenda adfywio gymunedol y byddir yn rhoi sylw iddynt. Canolbwyntiodd Rhan 1 o'r adolygiad ar yr agweddau cyllido a phartneriaeth, a byddai Rhan 2 yn edrych ar feithrin gallu a'r prinder staff adfywio cymunedol.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau a Dirprwyon**

1.1 Roedd Rosemary Butler yn dirprwyo dros Tom Middlehurst a Janet Davies yn dirprwyo dros Pauline Jarman. Roedd y naill aelod a'r llall wedi anfon eu hymddiheuriadau. Roedd Dai Lloyd hefyd wedi ymddiheuro, gan y byddai'n hwyr yn cyrraedd.

**Eitem 2: Datgan Buddiannau**

2.1 Gwnaed y datganiadau isod:

Peter Black: Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe.

Janet Davies: aelod o Gyngor Cymuned Llanhari.

William Graham: Aelod o Gyngor Dinas a Bwrdeistref Sirol Casnewydd.

Pauline Jarman: Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac aelod o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Dai Lloyd: Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe.

Janet Ryder: Aelod o Gyngor Tref Rhuthun.

Gwenda Thomas: Budd mewn materion sy'n ymwneud â Swyddfa'r Post.

**Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog**

3.1 Cyflwynodd y Gweinidog ei hadroddiad.

- Tynnodd sylw'r Aelodau at y papur ar Dai Fforddiadwy mewn Ardaloedd Gwledig yr oedd wedi ei gylchredeg ar 9 Gorffennaf. Dywedodd ei bod wedi nodi canlyniadau'r ymarferiad ymgynghori a gynhaliwyd yn ddiweddar a bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu cyflwyno Gorchymyn yn yr Hydref i roi'r newidiadau ar waith.
- Rhoddodd wybod am fater difrifol a oedd wedi dod i'r amlwg yng nghyswllt Cymdeithas Tai y Drenewydd. Mae'r Gymdeithas hon yn rheoli 240 o dai ar ddwy ystâd a hon yw'r unig Gymdeithas o dan reolaeth y tenantiaid yng Nghymru. Roedd problemau wedi codi ynglŷn â rheolaeth y Gymdeithas ac roedd y Gweinidog wedi penodi 3 unigolyn yn swyddogol o dan Ddeddf Tai 1996 i gynorthwyo'r Bwrdd presennol i reoli'r gymdeithas. Ychwanegodd y byddai hefyd yn cynnal ymchwiliad statudol i ymchwilio i'r sefyllfa, o dan yr un Ddeddf. Er bod gweithredu fel hyn yn anarferol iawn yng Nghymru, dywedodd y Gweinidog fod yr amgylchiadau yn cyfiawnhau defnyddio'r dulliau hyn. Ychwanegodd ei bod yn anodd dweud erbyn pryd y byddai'r ymchwiliad wedi'i gwblhau ond byddai'n rhoi gwybod i'r Pwyllgor am yr hyn sy'n digwydd maes o law.

3.2 Yn ystod y drafodaeth, cododd yr Aelodau y pwyntiau canlynol:

- Diolchodd yr Aelodau i'r Gweinidog am wrando ar yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymarferiad ymgynghori ynglŷn â'r Cynllun Tai Fforddiadwy. Awgrymwyd y gallai fod yn dda o beth dod â phapur gerbron yn yr hydref yn cynnwys holl bolisïau a chynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar dai mewn ardaloedd gwledig.
- Nododd yr Aelodau bryderon y Gweinidog ynglŷn â Chymdeithas Tai y Drenewydd a chytunwyd ei bod wedi gweithredu'n briodol. Gofynasant a fyddai modd llunio unrhyw gasgliadau ar gyfer y Cynllun Cymunedol Cydfuddiannol wrth adolygu'r Ymchwiliad. Dywedodd yr Aelodau hefyd fod Cymdeithasau Tai Cymru yn cael eu gwasanaethu'n dda iawn ar y cyfan, yn bennaf gan wirfoddolwyr.
- Holodd yr Aelodau y Gweinidog ynglŷn â'i hamserlen o ran rhoi Adroddiad Comisiwn Sunderland ar y Trefniadau Llywodraeth Leol yng Nghymru ar waith.

3.3 Rhoddodd y Gweinidog yr ymateb canlynol a chynigiodd gymryd y camau a ganlyn:

- Cytunodd i ddarparu papur i'r Pwyllgor ar y materion Tai a godwyd yn Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant ar yr iaith Gymraeg.
- Cytunodd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau, ar sail breifat a chyfrinachol os bydd raid, am y datblygiadau yng nghyswllt yr ymchwiliad statudol i Gymdeithas Tai y Drenewydd.
- Dywedodd y byddai'n gwneud datganiad i'r Cyfarfod Llawn ar 16eg Gorffennaf ar Adroddiad Comisiwn Sunderland. Byddid yn cynnal ymarferiad ymgynghori a fyddai'n dod i ben ar 30ain Hydref 2002. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu papur

ym mis Rhagfyr ynglŷn â chanlyniad yr ymarferiad ymgynghori ynghylch argymhellion Adroddiad Sunderland.

3.4 Holodd y Cadeirydd a fyddai unrhyw gamau a gymerir mewn perthynas â rhenti cymdeithasau tai yn effeithio ar y budd-daliadau eraill a dderbynnir. Y Gweinidog i adrodd ar bosibilrwydd yr Ymchwiliad i Gymdeithas Tai y Drenewydd, gan flaenoriaethu'r materion a allai effeithio ar y budd-daliadau y caiff tenantiaid eu hawlio.

**Eitem 4: Mesur Llywodraeth Leol Drafft LGH-12-02 (p.1)**

4.1 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gyflwyno'r papur hwn. Tynnodd sylw'r Aelodau at yr Atodiadau at y papur a nodai ym mha achosion y dylai deddfwriaeth sylfaenol alluogi yn hytrach na rhagnodi a pha bryd y dylai'r Cynulliad allu llunio is-ddeddfwriaeth er mwyn cyflwyno ei benderfyniadau polisi ei hun. Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod Peter Jones, Cwnsler Pwyllgorau'r Cynulliad, yn bresennol i roi cyngor ar unrhyw agweddau cyfreithiol o'r Mesur.

4.2 Dywedodd y Gweinidog fod llywodraeth San Steffan wedi cyhoeddi Mesur Llywodraeth Leol drafft at ddibenion ymgynghori ar 12 Mehefin ac mai yn Lloegr yn unig yr oedd yr ymgynghori yn cael ei gynnal oherwydd gwahaniaethau amseru rhwng cyhoeddi Papur Gwyn yr Adran Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau (fel yr oedd) a phapur "Rhyddid a Chyfrifoldeb mewn Llywodraeth Leol" Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ychwanegodd ei bod wedi gwneud yn glir ei bod yn bwriadu pwyso ar Whitehall i ganiatáu cymaint â phosibl o hyblygrwydd yn y Mesur i alluogi'r Cynulliad i ddatblygu sefyllfaoedd sy'n sensitif i anghenion ac amgylchiadau neilltuol Cymru. Dywedodd ei bod wedi ysgrifennu at Nick Raynsford AS, y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a'r Rhanbarthau, yn mynegi ei barn ac yn gofyn am i'r pwerau hynny sydd wedi'u dirprwyo i'r Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr gael eu dirprwyo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Chymru.

4.3 Cododd yr Aelodau y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Roeddent yn croesawu'r mesurau yr oedd y Gweinidog wedi'u cymryd i sicrhau bod y Mesur yn adlewyrchu anghenion Cymru a phwysleisiasant fod yn rhaid i Gymru gael cymaint o ryddid â phosibl.
- Teimlid y dylid edrych eto ar fater trethi busnes ac yn benodol ar sut y maent yn cael eu gweithredu mewn perthynas â busnesau bach. Awgrymwyd y gellid bwrw cyfrif o'r dreth yn y maes hwn drwy gysylltu'r trethi â pha mor broffidiol yw'r busnes yn hytrach na'r drefn draddodiadol o seilio'r dreth ar arwynebedd llawr y busnes ac y gallai newid o'r fath annog busnesau i ailystyried lleoliadau canol trefi efallai yn hytrach na lleoliadau ar y cyrion.
- Roedd cyflwyno Ardaloedd Gwella Busnes yn cael ei groesawu a gofynnwyd i'r Gweinidog ymhelaethu ar y mater hwn.
- Roedd rhai aelodau yn anhapus â'r penderfyniad i newid y drefn ar gyfer cymeradwyo sylfaen y dreth gyngor drwy dynnu'r penderfyniad hwnnw oddi ar y cyngor llawn a'i roi i Weithrediaeth yr awdurdodau lleol.

- Roedd yr Aelodau'n croesawu'r ffaith na fydd peidio â dychwelyd ffurflenni yn drosedd mwyach
- Codwyd cwestiwn ynglŷn â'r diffiniad o addoldai crefyddol a gofynnodd yr aelodau beth sy'n gwneud grŵp crefyddol.
- Codwyd amheuon ynglŷn â mater trosglwyddo'r swyddogaeth dangosyddion perfformiad I'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).
- Holodd y Cadeirydd a fyddai'r Aelodau yn fodlon cael cyflwyniad gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y gwaith y mae wedi'i wneud yn barod ar godi tâl am wasanaethau statudol.  Cytunodd y Pwyllgor.

4.4  Mewn ymateb, dywedodd y Gweinidog:

- Roedd ei llythyr at Nick Raynsford AS yn pwysleisio y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gael y pwerau i hybu manteision y Mesur hwn i Gymru i'r eithaf.
- Dywedodd fod llawer iawn o lobïo wedi ei wneud gan Gydffederasiwn Diwydiant Prydain ynglŷn â'r Ardaloedd Gwella Busnes, a'i bod yn bwriadu cynnwys ei syniadau hi am y ffordd ymlaen o ran trethi busnes mewn papur i'r Cyngor Partneriaeth sydd wedi'i drefnu ar gyfer 15fed Gorffennaf.
- Dywedodd fod yna lawer o ddata hanesyddol i gefnogi eithrio addoldai ac nad yw'r canolfannau ehangach sydd ynghlwm wrth adeiladau crefyddol yn cael eu heithrio.
- Ar fater y dangosyddion perfformiad, dywedodd mai'r Cynulliad sydd wedi bod yn gosod y dangosyddion ond nad oedd ganddo'r grym i yrru'r polisi ac y byddai'r cynnig hwn yn dod â'r naill agwedd a'r llall ynghyd.  Cytunodd i ymchwilio i'r dangosyddion perfformiad ar gyfer Budd-dâl Tai.
- Nododd yr hyn oedd wedi'i ddweud ynglŷn â ffïoedd a thaliadau a'r gwaith gwerthfawr yr oedd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ei wneud ond dywedodd mai cyfeirio at godi tâl am wasanaethau dewisol yr oedd y mater hwn.

**Eitem 5:   Y Diweddaraf am "Ailfeddwl am Adeiladu " LGH-12-02 (p.2)**

5.1  Cyflwynodd y Gweinidog y papur hwn a roddai wybodaeth ddiweddaru i'r Pwyllgor yn dilyn yr adroddiad ym Mehefin 2001.  Dywedodd:

- Mai'r Adran Masnach a Diwydiant oedd yr adran flaen ond bod llawer o gynnydd wedi'i wneud yng Nghymru a'i bod yn fodlon â'r ymateb i'r cynlluniau cyfredol y manylwyd arnynt yn ei phapur.
- Dros y flwyddyn ddiwethaf, roedd yr ymgyrch Ailfeddwl am Adeiladu wedi canolbwyntio ar yr angen i weithredu er mwyn cyflymu'r broses o wella o fewn y diwydiant ac o safbwynt pobl, yn arbennig drwy gynlluniau Iechyd a Diogelwch a Pharchu Pobl.  Roedd y Cynulliad wedi parhau â'i waith yn hyrwyddo Ailfeddwl am Adeiladu a'r arferion gorau ym maes adeiladu.
- Roedd y Gyfarwyddiaeth Dai wedi sefydlu Fforwm Adeiladu i'r Cynulliad yn cynrychioli Is-adrannau'r Cynulliad a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad sy'n ymwneud â chaffael gwaith adeiladu.  Bu'r Fforwm yn cwrdd ers mis Tachwedd 2001 gan helpu i ddatblygu a chydlynu canllawiau arferion gorau ar gyfer gwaith adeiladu a ariannir gan y Cynulliad.

- Yn yr un modd, roedd y Gyfarwyddiaeth Dai wedi ffurfio gweithgor gyda Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru i gynhyrchu canllawiau arferion gorau ar gaffael gwaith adeiladu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

5.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Teimlai'r Aelodau fod y gwaith yn canolbwyntio ar ochr gaffael y diwydiant a gofynasant a oedd y Cynulliad mewn sefyllfa i ryddhau arian ar gyfer atgyweirio tai is-safonol ac a oedd gan Gymru ddigon o weithwyr medrus i wneud hyn?
- Mae grwpiau yn cyfuno arbenigedd i gynhyrchu deunyddiau a nwyddau lleol a holwyd a oedd unrhyw gymorth yn cael ei roi i grwpiau o'r fath?
- Gofynnwyd i'r Gweinidog ymhelaethu ar bwynt 22(a) o'r papur: *22. Argymhellir: a) Y dylai'r Gyfarwyddiaeth Tai trwy ymgynghori â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) weithredu er mwyn annog Awdurdodau Lleol yng Nghymru i weithredu ar gyngor y Gweinidog o ran y canllawiau a gynhyrchwyd gan y Tasglu Llywodraeth Leol.*
- Croesawyd y prosiect PathFinder yng Ngogledd Cymru a theimlid y dylid rhoi rhagor o gyhoeddusrwydd i'r Bwrdd Hyfforddi. Roedd yr Aelodau yn pryderu hefyd ynglŷn ag achredu NVQ's.
- Dywedodd y Cadeirydd y dylai'r Pwyllgor edrych ar fater caffael ac ar reolau'r UE yn benodol yn yr hydref efallai.

5.3 Mewn ymateb, dywedodd y Gweinidog:

- Mae adeiladu yn rhan annatod o economi Cymru ac yn anffodus mae yna brinder llafur medrus. Dywedodd fod hwn yn fater trawsbynciol ar draws portffolios allweddol a bod y mater yn cael sylw. Dywedodd y byddai'n dod â phapur gerbron yn yr hydref ar weithrediad "Ailfeddwl am Adeiladu", gan ddwyn y gwahanol geinciau ar draws holl bortffolios Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghyd.
- Dywedodd ei bod am dywys llywodraeth leol gyda hi yn hytrach na rhoi baich ychwanegol iddi i ddelio ag ef. Dywedodd fod hwn yn faes cymhleth a lywodraethir gan reolau a rheoliadau ond roedd mwyafrif yr awdurdodau lleol yn gweithio gyda hi.
- Cytunai fod achredu cymwysterau yn faes anodd a dywedodd y byddai'n ysgrifennu at y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ar faterion NVQ/hyfforddiant adeiladu.
- Dywedodd y Gweinidog y byddai rheolau caffael yr UE yn reit gul i'r Pwyllgor eu trafod.

5.4 Y Cadeirydd i ystyried pa un i ofyn am bapur i'w ystyried yn y dyfodol ar gyfarwyddebau caffael Ewropeaidd fel y maent yn effeithio ar Lywodraeth Leol.

**Eitem 6: Cyflwyniad ynghylch y "Ganolfan Ailfeddwl Adeiladu ar gyfer Cymru"**

6.1 Gwahoddodd y Cadeirydd Denys Morgan o Sefydliad y Peirianwyr Sifil i roi cyflwyniad ar y Ganolfan Ailfeddwl Adeiladu ar gyfer Cymru. Mr Morgan yw Cadeirydd y Ganolfan, sef Partneriaeth rhwng cyrff sy'n ymwneud â'r diwydiant adeiladu. Gan weithio'n agos gyda'r Cynulliad, mae'r bartneriaeth wedi croesawu'r agenda Ailfeddwl ar Adeiladu sy'n anelu at ddyfodol cynaliadwy,

ynghyd ag argymhellion adroddiad Egan.  Canolbwyntiai ei gyflwyniad ar amcanion a thargedau'r Ganolfan.  Mae copïau o'i sleidiau wedi cael eu cylchredeg i'r aelodau.  Dyma'r prif bwyntiau a wnaed:

- Y nod yw sicrhau newid meddylfryd mewn partneriaeth â'r diwydiant a'r gymuned gleientiaid drwy raglen o brosiectau arddangos sy'n dangos yr achos busnes o blaid newid a thrwy nodi'r arferion gorau a'u lledaenu yn fwy eang.
- Mae datblygu cynaliadwy yn thema allweddol i'r Ganolfan.  Mae cynllun Dinas Yfory yn Ne Cymru yn brosiect arloesol o dan "dCARB-UK" a bydd yn help i ostwng yr allyriannau $CO_2$ mewn ardaloedd trefol.
- Lansiwyd y Ganolfan Ailfeddwl Adeiladu ar gyfer Cymru ym Mawrth 2002 ac mae wedi targedu Hydref 2002 ar gyfer ei hadroddiad cyntaf i'r diwydiant.  Mae mwyafrif yr amcanion ar gyfer Blwyddyn 1 un ai wedi'u dechrau neu wedi'u cwblhau.
- Mae'r Ganolfan yn cynnig rhagolygon cyffrous i ddiwydiant eang ei gwmpas a bydd yna lawer iawn i'w ennill os bydd yn llwyddo.

6.2  Croesawodd y Gweinidog y cyflwyniad a soniodd am y gwaith ategol yr oedd y Ganolfan yn ymgymryd ag ef a'r cysylltiadau â Fforwm y Cynulliad. Ychwanegodd y byddai yna fudd i'r Cynulliad o gynnig rhywfaint o gymorth ariannol i'r ganolfan ac y byddai'n ystyried hyn wrth bennu'r gyllideb yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

6.3  Gwnaeth yr Aelodau y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Gofynnwyd i Mr Morgan ymhelaethu ar y penderfyniad i ffurfio'r Ganolfan Ailfeddwl Adeiladu ar gyfer Cymru fel cwmni ac a yw'n bwriadu masnachu yn y dyfodol?
- A yw pob elfen o'r diwydiant yn ymwneud i'r un graddau â'r Ganolfan?
- A fydd y Ganolfan yn hyrwyddo defnyddio agregau er mwyn gwarchod yr amgylchedd?

6.4  Dywedodd Denys Morgan:

- Mai'r cyngor cyfreithiol a roddwyd oedd mai ffurfio cwmni nid-er-elw oedd y ffordd orau o gyflawni nodau ac amcanion y Ganolfan.  Roeddid wedi ymchwilio i statws elusennol ond byddai dilyn y trywydd hwnnw wedi rhoi cyfyngiadau cyfreithiol ar yr hyn y gallai'r cwmni ei wneud a'r arweiniad y gallai ei gynnig.  Cadarnhaodd Mr Morgan na fyddai’r cwmni yn masnachu.
- Gwnaed penderfyniad bwriadol wrth sefydlu'r corff na fyddai cwmnïau unigol yn cael eu cynnwys ond y byddai'r cymdeithasau sy'n eu cynrychioli yn cael eu cynnwys.
- Mae hyrwyddo agregau yn faes a fydd yn cael ei gynnwys yn y canllawiau caffael.

6.5  Diolch y Cadeirydd i Mr Morgan am ei gyflwyniad a dywedodd y byddai'n croesawu adroddiad diweddaru mewn cyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

**Eitem 7:   Y Diweddaraf am y Swyddfeydd Post LGH-12-02 (p.3)**

7.1 Cyflwynodd y Cadeirydd y papur hwn ar ran y Gweinidog a oedd wedi gadael y cyfarfod, am ei bod yn sâl. Roedd y Papur yn hysbysu'r Pwyllgor am weithgareddau Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â sector y post yng Nghymru a gwahoddai sylwadau ynghylch y dyfodol.

7.2 Prif bwyntiau'r Gweinidog oedd:

- Mae'r cyfrifoldeb am faterion y post wedi bod yn ei phortffolio am y 6 mis diwethaf.
- Nid yw'r rhan fwyaf o'r polisi mewn perthynas â Swyddfa'r Post wedi ei ddatganoli ac ar y cyfan mae'r rhan fwyaf o'r datblygiadau diweddaraf wedi bod y tu hwnt i gylch gwaith y Cynulliad. Fodd bynnag, mae gan y Cynulliad ddyletswydd i fonitro datblygiadau fel y maent yn effeithio ar Gymru a gweithredu, lle bo hynny'n briodol. Mae hwn yn gyfnod o newid ac ansicrwydd i rwydwaith y swyddfeydd post ynghyd â'r cymunedau a wasanaethir ganddynt.
- Bydd y newid i dalu budd-daliadau drwy drosglwyddiad credyd awtomataidd o wanwyn 2003 ymlaen a sefydlu'r gwasanaethau bancio cyffredinol yn golygu canlyniadau i Gymru. Roedd y Gweinidog yn gobeithio y byddai cyflwyno gwasanaeth bancio yn y swyddfeydd post yn gwneud iawn am beth o'r refeniw a gaiff ei golli oherwydd trosglwyddiadau credyd awtomataidd yn ogystal â'i gwneud yn haws i bobl gyrchu at wasanaethau ariannol yn lleol.
- Roedd y Gweinidog wedi gofyn am ganiatâd y Cadeirydd i ymateb i ddau aelod a oedd wedi codi pwyntiau yn ystod ei datganiad i'r Cyfarfod Llawn ar 18fed Mehefin. Dywedwyd wrth Janet Ryder fod y papur yn dangos bod Llywodraeth y Cynulliad yn mynd ar drywydd y Gwasanaeth Ymarferydd Llywodraeth Cyffredinol, cynllun a gynhaliwyd fel peilot gan Swydd Gaerlŷr, gyda'r Adran Masnach a Diwydiant. Yn ail, i Peter Black, dangosai'r papur fod pob swyddfa bost yng Nghymru (trefol a gwledig) wedi derbyn llythyr ynglŷn â'r cynigion i ailddyfeisio'r rhwydwaith trefol.

7.3 Gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Bydd cyflwyno trosglwyddiadau credyd awtomataidd yng ngwanwyn 2003 yn cael effaith enfawr ar rwydwaith y swyddfeydd post, gyda swyddfeydd gwledig a threfol mewn ardaloedd difreintiedig yn dod o dan fygythiad gan na fydd yna ddigon o fusnes iddynt dalu'r ffordd.
- Codwyd cwestiynau hefyd ynglŷn â llwybrau'r bysiau post. Mae'r llwybrau hyn yn darparu gwasanaeth gwerthfawr i gymunedau mewn ardaloedd diarffordd. Holodd yr Aelodau tybed a oedd y tocynnau teithio am ddim yn ddilys ar y gwasanaethau hyn.
- A oes ystyriaeth wedi'i rhoi i ffyrdd newydd o gynnig gwasanaethau mewn swyddfeydd post? Gallai gwasanaethau posibl gynnwys datblygu siopau gwybodaeth, cynnwys biwro gwybodaeth i dwristiaid, a chysylltiadau ag undebau credyd lleol.
- A fydd y gwasanaethau bancio cyffredinol yn cael eu hymestyn i gwsmeriaid masnachol, oherwydd dim ond bancio personol a gynigir ar hyn o bryd?
- Croesawai'r Aelodau yr adnoddau a oedd wedi'u clustnodi i gynorthwyo is-bostfeistri sy'n dymuno gwella eu hadeiladau neu adleoli, a hefyd y pecyn iawndal i'r rhai a oedd yn dymuno cau eu busnes.

- Roedd yr Aelodau'n anhapus ynglŷn ag adroddiad yn y cyfryngau y byddai swyddfeydd didoli yng Nghymru yn cau ond penderfynwyd y byddai'n well codi'r pwyntiau hynny gyda Graham Cater o Consignia (Eitem 8).

7.4 Ymatebodd Norma Barry o'r Gyfarwyddiaeth Gymunedau i'r pwyntiau a godwyd:

- Nid oes unrhyw un o'r 15 llwybr bws post yng Nghymru o dan fygythiad cyhyd â bo'r awdurdodau lleol yn parhau i gefnogi'r gwasanaeth. Byddai'r swyddogion yn adrodd yn ôl ar y cwestiwn pa un a ellir defnyddio'r tocynnau bws am ddim ar fysiau post.
- Ers i'r Gyfarwyddiaeth Gymunedau ymgymryd â'r cyfrifoldeb am faterion y post, roedd llawer o waith wedi cael ei wneud i ddatblygu cysylltiadau â Swyddfa'r Post Cyf, Consignia a'r Adran Masnach a Diwydiant. Roedd cysylltiadau wedi cael eu sefydlu hefyd â llywodraethau datganoledig eraill y DU.
- Roedd y swyddogion yn cydnabod yr angen i gefnogi'r rhwydwaith yng Nghymru drwy ganfod ffyrdd newydd o ehangu'r gwasanaethau a gynigir gan y swyddfeydd post. Roedd trafodaethau wedi dechrau gyda Chanolfan Gydweithredol Cymru ynglŷn â chronfa i gynorthwyo swyddfeydd post mewn ardaloedd difreintiedig. Y gobaith oedd cyflwyno cynigion drafft i'r Gweinidog yn fuan at ei sylw hi.
- Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaethau bancio cyffredinol wedi eu cyfyngu i fancio personol yn unig.

**Eitem 8: Cyflwyniad ar Faterion Swyddfa'r Post yng Nghymru**

8.1 Cyflwynodd y Cadeirydd Graham Cater, Cadeirydd a Stuart Taylor, Pennaeth Cysylltiadau Allanol Bwrdd Ymgynghorol Consignia yng Nghymru. Cyn iddynt roi eu cyflwyniad, dywedodd y Cadeirydd fod Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri wedi cael gwahoddiad i gyfarfod y Pwyllgor heddiw ond nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn anffodus. Roedd y Ffederasiwn wedi nodi y byddai'n hoffi rhoi cyflwyniad i'r Pwyllgor ryw dro yn y dyfodol.

8.2 Dechreuodd Graham Cater drwy ddweud ei fod am gofnodi'n gyhoeddus ei werthfawrogiad o'r cydweithrediad aruthrol y mae Consignia (Cymru) wedi ei gael gan y Gyfarwyddiaeth Gymunedau. Mae copïau o'u sleidiau wedi'u cylchredeg i'r Aelodau. Y pwyntiau allweddol a wnaed oedd:

- Mae Consignia yn wynebu nifer enfawr o sialensiau yn y tymor byr a'r tymor hir.
- Mae Consignia yn cyflogi 10,000 o bobl yng Nghymru ac yn cynnal rhwydwaith o 1,400 o swyddfeydd post. Y nod yw parhau i ddarparu gwasanaeth o safon i'r gymuned a chyfrannu at yr economi.
- Mae’r tair blynedd diwethaf o fasnachu wedi arwain at ostyngiad enfawr mewn elw ac mae'n rhaid rhoi sylw i hynny a chywiro'r sefyllfa. Bydd y Cynllun Adnewyddu yn sicrhau llif positif o arian ac yn dod â'r cwmni'n ôl i sefyllfa lle mae'n gwneud elw yn y tymor byr i ganolig; bydd yn gwella'r gwasanaeth i gwsmeriaid ac yn gwneud Consignia yn lle da i weithio ynddo.
- Mae cynigion wedi cael eu cyhoeddi i ailstrwythuro'r post a'r drefn ddanfon ac mae astudiaeth beilot o ddulliau danfon i ddechrau ar 15 Gorffennaf, gyda Llanelli wedi ei chynnwys yn y treialon. O dan y drwydded weithredu oddi wrth Postcomm, bydd y post yn cael ei ddanfon yn ddyddiol i bob cyfeiriad yn y

Deyrnas Unedig, gyda nifer fach o eithriadau.  Pwysleisiwyd y drefn hon ac ni fydd yn newid.

- Mae Cownteri Swyddfa'r Post hefyd wedi cael eu hadolygu a bydd y penderfyniad i dalu budd-daliadau drwy drosglwyddiad credyd awtomataidd o wanwyn 2003 ymlaen yn cael effaith ddirfawr ar swyddfeydd post.  Ar hyn o bryd, mae 40% o swmp y gwaith a 30% o'r refeniw yn deillio o fusnes Llywodraeth.  Mae'n anochel y bydd nifer y swyddfeydd post yn cael ei ad-drefnu i ryw raddau ac roedd y cynlluniau iawndal a'r grantiau i gynorthwyo is-bostfeistri i'w croesawu.
- Derbynnir y bydd yn rhaid i swyddfeydd post fod yn arloesol yn y dyfodol a bydd yn rhaid iddynt chwilio am ffyrdd o dargedu gwasanaethau at gwsmeriaid.

8.3  Cafwyd trafodaeth lawn wedyn a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Adleisiodd yr Aelodau eu gwerthfawrogiad o'r gweithwyr post ond roeddent yn pryderu ynglŷn â cholledion swyddi posibl yng Nghymru.
- Codwyd cwestiynau ynglŷn â dyfodol y system gyfrifiadurol gostus Horizon.
- Gofynnwyd am sicrwydd ynglŷn â dyfodol Swyddfeydd Didoli Post Abertawe a Chaerdydd a mynegwyd pryder nad oes yna swyddfa didoli'r post yng Ngogledd Cymru.
- A all Consignia roi sicrwydd na fydd y Swyddfeydd Didoli'r Post yng Nghaerdydd ac Abertawe yn cael eu cau?
- Ai'r bwriad yw cadw'r "amlenni budd-dâl a ddychwelir" yng nghyswllt y Blwch SP yn Abertawe?

8.4  Mewn ymateb, dywedwyd:

- Bod y system Horizon yn cael ei chyflwyno i bob swyddfa bost yn y Deyrnas Unedig fel ffordd o ymladd twyll ac y byddai cost enfawr sefydlu'r system yn cael ei hadennill drwy'r arbedion ar dwyll.  Gyda throsglwyddiadau credyd awtomataidd yn cael eu cyflwyno o'r flwyddyn nesaf, bydd y defnydd a wneir o Horizon yn gostwng ond cydnabuwyd y bydd yn rhaid datblygu'r system i ateb gofynion y gwasanaethau angenrheidiol, gan ei bod wedi cael ei gosod.  Y gobaith yw y bydd y System Fancio Gyffredinol yn cynyddu ac y bydd yn cael ei defnyddio drwy Horizon.  Mae yna gyfle enfawr i swyddfeydd post gwledig weithredu fel cyfleuster bancio yn y cymunedau hynny lle nad oes unrhyw fanciau.
- Dywedodd Graham Cater nad oes yna unrhyw gynlluniau i gau swyddfeydd Didoli'r Post yn Abertawe na Chaerdydd.  Eglurodd fod y gwaith dros y penwythnos wedi cael ei drosglwyddo i Fryste ond mai dyna oedd yr unig newid.  Ychwanegodd nad oedd gan Ogledd Cymru Swyddfa Didoli Post gan fod £30m wedi'i fuddsoddi yn y swyddfa ddidoli yng Nghaer, sy'n delio â'r holl bost o Ogledd Cymru.  Roedd tîm wedi'i sefydlu yno i sicrhau bod cyfeiriadau drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu didoli'n gywir.  O ran ansawdd y gwasanaeth, roedd Caer wedi rhagori ar y targedau i'r gwasanaeth danfon dosbarth cyntaf ac ail ym mis Ebrill ac roedd swyddfa ddidoli Abertawe o fewn y deg uchaf fel arfer o ran ansawdd ei gwasanaeth.  Canlyniadau o arolygon annibynnol yw'r rhain.  Yn gyffredinol, mae'r oedi yn y post yn cael ei achosi am nad yw pobl yn defnyddio'r cod post, neu am fod codau post anghywir yn cael eu defnyddio, ac roedd ymgyrch hyrwyddo fawr wedi'i chynllunio i'w chynnal tua diwedd y flwyddyn er mwyn addysgu pobl i ddefnyddio'r cod post.

- Mae yna 109 o Swyddfeydd Danfon yng Nghymru.  Mae Consignia wedi dechrau ar raglen i wella'r cyfleusterau ac mewn rhai achosion bu'n rhaid rhesymoli'r ddarpariaeth er mwyn gwella'r gwasanaeth i gwsmeriaid.
- O ran mater yr amlenni a ddychwelir, cytunodd Mr Cater i ysgrifennu at y Cadeirydd gyda'r wybodaeth hon.

8.5  Diolchodd y Cadeirydd i Graham Cater a Stuart Taylor am eu cyflwyniad.

**Eitem 9:  Cofnodion cyfarfod 26 Mehefin LGH-11-02 (min)**

9.1 Cytunwyd ar y cofnodion.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor** **Gorffennaf 2002**

**Crynodeb o'r pwyntiau gweithredu:**

1. Y Gweinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau, ar sail breifat a chyfrinachol os bydd raid, am y datblygiadau yng nghyswllt yr Ymchwiliad Statudol i Gymdeithas Tai y Drenewydd.

2. Y Gweinidog i adrodd ar bosibilrwydd yr Ymchwiliad i Gymdeithas Tai y Drenewydd, gan flaenoriaethu'r materion a allai effeithio ar y budd-daliadau y caiff tenantiaid eu hawlio.

3. Cytunodd y Gweinidog i ymchwilio i'r dangosyddion perfformiad ar gyfer Budd-dâl Tai.

4. Y Gweinidog i ddarparu papur ym mis Rhagfyr ynglŷn â chanlyniad yr ymarferiad ymgynghori ynghylch argymhellion Adroddiad Sunderland.

5. Y Gweinidog i ddarparu papur i'r Pwyllgor ar y materion Tai a godwyd yn Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant ar yr iaith Gymraeg.

6. Y Gweinidog i ddarparu papur ar weithrediad "Ailfeddwl am Adeiladu", gan ddwyn y gwahanol geinciau ar draws holl bortffolios Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghyd.

7. Y Gweinidog i godi mater NVQ/hyfforddiant adeiladu gyda'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes.

8. Y Cadeirydd i ystyried pa un i ofyn am bapur i'w ystyried yn y dyfodol ar gyfarwyddebau caffael Ewropeaidd fel y maent yn effeithio ar Lywodraeth Leol.

9. Y swyddogion i adrodd yn ôl ar y cwestiwn pa un a ellir defnyddio'r tocynnau bws am ddim ar fysiau Swyddfa'r Post.